DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ,

## Practis Deintyddol The Coach House

20 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


Digidol ISBN 978-1-4734-6443-8
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

5. Y Camau Nesaf .......... 14

6. Methodoleg .......... 15

Atodiad A .......... 17

DRAFT

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gwblhau arolygiad ym Mhractis Deintyddol The Coach House yn 4a Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BU ar 20 Ionawr 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol The Coach House yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a chanllawiau.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

DRAFT

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol The Coach House yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Wrecsam yn Sir Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol The Coach House yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys saith deintydd, deg nyrs ddeintyddol gofrestredig, un rheolwr practis, un hylenydd, un therapydd a dau dderbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

DRAFT

## 3. Crynodeb

Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd cleifion a gwblhaodd a dychwelyd yr holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion). Roedd yn gyson â *Gweithio i Wella*, y trefniadau sydd ar waith er mwyn ymateb i bryderon ynghylch gofal y GIG yng Nghymru.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng cleifion (llewygu), ac roedd ganddynt fynediad at gyffuriau ac offer brys. Roedd trefniadau ar waith i waredu gwastraff a gynhyrchir yn y practis. Dangosodd y staff broses foddhaol ar gyfer dadheintio offer deintyddol. Yn gyffredinol, gwelsom fod cofnodion deintyddol cleifion wedi'u cadw i safon uchel.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am gynnal y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi, a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y tîm. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd, a sesiynau 'gwrando a dysgu' amser cinio misol i'r holl aelodau staff.

Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Cynhaliwyd archwiliadau mewn rhannau gwahanol yn y practis.

DRAFT

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd cleifion a wnaeth gwblhau a dychwelyd yr holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.Roedd gan y practis weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion).Roedd yn gyson â *Gweithio i Wella*, y trefniadau sydd ar waith er mwyn ymateb i bryderon ynghylch gofal y GIG yng Nghymru.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd 28 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Mae'r blynyddoedd rydw i wedi bod yn glaf yn y practis hwn yn destament i fy moddhad gyda'r driniaeth broffesiynol ac arbennig rydw i wedi ei derbyn.'*
>
> *'Mae'r driniaeth mae fy nheulu a mi yn ei derbyn o'r radd flaenaf.Mae'r holl staff yma mor garedig.'*
>
> *'Bodlon iawn ar fy nhriniaeth'*
>
> *'Rydw i a fy mhlant wedi cael gwasanaeth arbennig a phroffesiynol bob amser'*

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau yn yr holiaduron fod y staff yn groesawgar iawn, yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas. Roedd cleifion yn hapus iawn gyda maint yr wybodaeth, gan gynnwys y cyngor a'r cymorth, gwnaethant ei derbyn pan oedd angen esboniadau pellach ynghylch triniaeth.

Dywedodd chwe chlaf wrthym eu bod wedi profi oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd, ond yn gyffredinol dangoswyd nad oedd hyn wedi achosi problem iddynt. Roedd proses ar waith i roi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion, ynghyd ag oriau agor y practis a'r rhif cyswllt tu allan i oriau (mewn argyfwng), hefyd wedi'u harddangos yn glir ger y brif fynedfa.

Serch hynny, dywedodd naw o'r 28 claf a roddodd sylwadau yn yr holiaduron wrthym nad oeddent yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y gwasanaethau

hyn. Efallai dymuna perchennog y practis a rheolwr y practis ystyried sut i godi ymwybyddiaeth bellach o hyn.

Gwelsom fod taflen wybodaeth practis gynhwysfawr ar gael, ac roedd hon yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a defnyddiol. Roedd taflenni gwybodaeth eraill ar gael o ran ffordd o fyw iach a rhoi'r gorau i ysmygu.

Roedd y practis wedi asesu safbwyntiau'r cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir drwy holiaduron cleifion. Caiff yr arolwg hwn ei gynnal yn fisol. Roedd yr arolwg diwethaf wedi'i gwblhau yn ystod mis Rhagfyr 2015. Gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diwethaf wedi cael eu harchwilio i nodi unrhyw themâu, a bod y canlyniadau'n gadarnhaol ym mhob maes. Roedd blychau sylwadau ar gyfer sylwadau cleifion ar gael ym mhob man aros.

Roedd gan y practis leoedd parcio dynodedig at ddefnydd cleifion.

Roedd mynediad i'r practis ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, neu'r sawl sydd ag anawsterau symudedd sylweddol.

Mae dolen sain ar gael, a gall y practis roi gwybodaeth ar fformat print mawr os oes angen. Byddai gofynion ieithyddol cleifion yn cael eu diwallu pryd bynnag mae'n bosib neu drwy'r gwasanaeth cyfieithu llinell iaith.

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth breifat, a gofal a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith i gleifion allu mynegi pryderon (cwynion). Roedd y weithdrefn yn bodloni gofynion y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, ac yn cydymffurfio â Gweithio i Wella, y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon ynghylch gofal y GIG yng Nghymru.

Gwelsom dystiolaeth fod pryderon (cwynion) ffurfiol/ysgrifenedig yn cael eu cofnodi mewn ffeil gwynion. Dywedwyd wrthym fod cwynion anffurfiol/llafar yn cael eu nodi a'u cofnodi yn nodiadau unigol cleifion, a bod y cwynion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd practis er mwyn rhannu dysg, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Cynghorwyd bod cofnod ar wahân yn cael ei gadw ar gyfer cwynion anffurfiol, er mwyn canfod a nodwyd unrhyw themâu.

Dywedodd staff wrthym y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gydag uwch staff y practis.

Wrth holi cleifion ynghylch y weithdrefn i'w dilyn, dywedodd hanner y cleifion a ddychwelodd yr holiaduron wrthym eu bod yn ymwybodol o sut i wneud cwyn, ac nid oedd yr hanner arall yn gwybod sut i wneud cwyn. Yn ogystal, gwnaeth rhai cleifion sylwadau'n dweud nad oeddent erioed wedi gorfod gwneud cwyn. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) ar gael yn y

practis. Serch hynny, efallai dymuna perchennog y practis a rheolwr y practis ystyried sut i godi ymwybyddiaeth bellach o hyn.

Roedd deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu triniaeth y GIG, ond cynigir rhai gwasanaethau deintyddol preifat hefyd. Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi’u harddangos, ynghyd â gwybodaeth am gymhwyster cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gwybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

DRAFT

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng claf (llewygu) ac roedd ganddynt fynediad at gyffuriau ac offer brys. Roedd trefniadau ar waith i waredu gwastraff a gynhyrchir yn y practis. Dangosodd y staff broses foddhaol ar gyfer dadheintio offer deintyddol. Yn gyffredinol gwelsom fod cofnodion deintyddol cleifion wedi'u cadw i safon uchel.**

Mae Practis The Coach House mewn adeilad sengl sy’n agos at ganolfan siopa Wrecsam.

Roedd gan y practis leoedd parcio dynodedig at ddefnydd cleifion. Roedd blaen yr adeilad yn ymddangos ei bod wedi'i gadw'n dda, ac roedd arwyddion yn nodi'r practis. Mae tu mewn yr adeilad yn olau ac yn lân, ac mae awyrgylch gwresog a chyfeillgar.

Roedd mynediad i'r practis ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu'r sawl sydd ag anawsterau symudedd sylweddol.

Roedd cyfleusterau yn y practis wedi cael eu trefnu dros ddau lawr. Mae'r llawr daear yn cynnwys derbynfa, ystafell aros, tair ystafell driniaeth, ystafell ddadheintio, swyddfa, toiled i gleifion (gyda mynediad i bobl anabl), storfa fawr a diogel ac ystafell gywasgydd, ac yno maent hefyd yn cadw'r offer allsugno. Nodwyd nad oedd gan doiled y cleifion system galw larwm mewn argyfwng, a byddem yn argymell hynny. Serch hynny, mae modd gweld y cyfleuster o'r dderbynfa.

Ar y llawr cyntaf, mae ystafell aros ychwanegol, tair ystafell driniaeth arall, ac ystafell ddatblygu radiograff/OPG. Roedd cyfleusterau'r staff wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf.

Roedd toiledau'n cael eu darparu i'r staff ac i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas a thywelion papur i atal croes-heintio.

Roedd arwyddion i nodi'r allanfeydd tân, ac roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau yn adeilad y practis. Dangosai labeli cynnal a chadw fod diffoddwyr tân wedi eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth ar sut i adael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân, a bod offer diffodd tân ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

Mae'r gwaith cynnal a chadw ar system 12 mis.

Arsylwyd bod y cwpwrdd a ddefnyddir i gadw deunyddiau ar gyfer glanhau'r adeilad angen sylw, a bod angen newid y gorchudd llawr. Roedd angen codau lliw ar yr offer glanhau, ac roedd angen eu storio'n briodol. Trafodwyd hyn â rheolwr y practis a pherchennog y practis. Cafodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) eu hysbysu o fewn 24 awr fod y camau gofynnol wedi'u cymryd.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod codau lliw ar offerynnau glanhau, a bod y llawr yn addas i'r diben. Dylid sicrhau bod y silffoedd yn y cwpwrdd glanhau yn hawdd eu glanhau.***

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol i waredu gwastraff domestig a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu. Mae gan y practis ystafelloedd dadheintio ar wahân, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[1]. Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o weithdrefnau rheoli addas, leihau'r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol.

Arsylwom ar aelod o staff yn ystod y broses o ddadheintio, a gwelsom fod hyn wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Roedd gan y practis bump awtoclaf (a ddefnyddir ar gyfer sterileiddio offer deintyddol), ac roedd ganddynt dystysgrifau arolygu cyfredol a oedd yn cadarnhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd stripiau profi ar gael, ac roeddent yn dangos bod profion dyddiol wedi'u cynnal i sefydlu a oedd tri o'r awtoclafau wedi cyrraedd "tymheredd a phwysedd" sterileiddiad addas, a bod hwn yn cael ei gadw am gyfnod penodol. Roedd llyfrau cofnod ar gael i ddangos a oedd profion rheolaidd eraill, a oedd wedi'u pennu ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, wedi'u cynnal ar yr awtoclafau ac i gadarnhau eu bod yn addas at eu defnydd arfaethedig. Serch hynny, roedd cardiau cof gan ddau o'r awtoclafau. Caiff hyn ei brintio ar ôl cwblhau'r gylchred. Er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r gylchred wedi'u cadw, dylai'r practis sicrhau bod paramedrau cylchred yn cael eu profi'n

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

foddhaol wrth i gylchrediadau eraill fod ar waith neu'n syth ar ôl hynny, a chadw cofnod o'r canlyniadau hyn.

Gwelsom fod yr offer deintyddol wedi’u pecynnu’n i leihau’r risg o heintio wrth iddynt gael eu storio. Roedd tîm y practis wedi cofnodi'r dyddiad dod i ben ar gyfer yr offer, i nodi erbyn pryd roedd rhaid eu defnyddio. Efallai dymuna'r practis ystyried ailbrosesu offer sydd wedi'u sterileiddio ar ôl un mis, yn unol â chanllawiau'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Hysbyswyd ni bod argraffiadau (dannedd a deintgig) yn cael eu dadheintio gan y practis, cyn cael eu hanfon i'r labordy. Mae'r labordy yn dadheintio'r argraffiadau cyn eu dychwelyd i'r practis. Dylai'r practis nodi bod Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymell dadheintio gwaith y labordy  a gaiff ei ddychwelyd cyn ei roi yng ngheg y claf.

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis.

Gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf ar sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn cadarnhau hyn. Argymhellwyd bod staff y practis yn ystyried cynnal senarios adfywio cardio-pwlmonaidd rhwng hyfforddiant blynyddol.

Dywedodd staff wrthym fod system ar waith i nodi cyffuriau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben a chyflenwi rhai newydd yn eu lle, a hefyd i wirio'r offer brys yn y practis yn rheolaidd. Caiff hyn ei wirio a'i gofnodi'n fisol. Gwnaethom wirio'r cyffuriau brys a gwelsom fod pob un o fewn eu dyddiad. Gwelsom nad oedd y diffibriliwr wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio, a gwnaethom nodi y dylid ychwanegu hwn at y rhestr. Gwnaethom argymell bod y gwiriad yn cael ei gynnal yn wythnosol, yn unol ag argymhellion y Cyngor Dadebru.

Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro pobl heb ganiatâd rhag eu defnyddio. Serch hynny, argymhellir cadw cofnod o'r holl bresgripsiynau gwag neu a roddwyd.

Gwelsom fod trefniadau ar gael ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol a'r wybodaeth ofynnol. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gyfer yr offer ar gael. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd rheolau lleol (ar gyfer defnyddio a thynnu pelydrau-X) ar gael.

DRAFT

Roedd pelydrau-X digidol a thraddodiadol yn cael eu defnyddio, ac roedd system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delwedd y rhain yn cael ei raddoli a'i gofnodi.

Gwnaethom adolygu sampl o 15 cofnod deintyddol cleifion. Roedd y sampl yn cynnwys cofnodion oedd wedi cael eu cwblhau gan y tri deintydd sy'n gweithio yn y practis.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cofnodion wedi'u cadw i safon uchel, ac roedd nodiadau yn cael eu cofnodi'n gyson ac yn gynhwysfawr. Gwelsom fod cyngor ynghylch risgiau a buddiannau triniaethau ac opsiynau triniaeth eraill wedi eu cofnodi; roedd cynlluniau triniaeth wedi'u llofnodi gan gleifion. Dangosodd yr holl gofnodion a welsom fod cyngor hyrwyddo iechyd, gan gynnwys iechyd y geg, wedi ei ddarparu gan y deintyddion.

Roedd triniaethau, costau, buddiannau ac opsiynau eraill wedi'u hesbonio a'u cofnodi yn y nodiadau. Caiff cydsyniad ei drafod a'i gasglu. Roedd gan y deintyddion a'r nyrsys ddealltwriaeth dda o gydsyniad mewn perthynas â phlant a phobl sy'n agored i niwed, a chleifion sydd â phroblemau cof. Roedd rhieni a gofalwyr yn rhan briodol o bethau.

Roedd gan y practis weithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer ymateb i faterion diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Roedd manylion cyswllt y timau diogelu lleol ar gael, fel bod gan staff fynediad at wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw ar gyfer cyngor ar faterion diogelu. Roedd staff wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

DRAFT

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd rheolwr yn gyfrifol am gynnal y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi, a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y tîm. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd, a sesiynau 'gwrando a dysgu' ar gyfer yr holl aelodau staff.**

**Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.Cynhaliwyd archwiliadau mewn rhannau gwahanol o'r practis.**

Roedd rheolwr practis a oedd yn gyfrifol am gynnal y practis o ddydd i ddydd, ac esboniodd y byddai'n cyflenwi dyletswyddau aelodau eraill o'r tîm yn ôl yr angen. Roedd rheolwr y practis yn gyfarwydd iawn â holl agweddau'r practis, a dangosodd ymrwymiad clir i gadw a gwella ansawdd a safonau o fewn y practis.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom gofnodion yn cadarnhau bod ganddynt yswiriant indemniad dilys ar waith.

Mae'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat. Er mwyn i ddeintyddion ddarparu gwasanaethau deintyddol yng Nghymru, mae'n rhaid iddynt gael eu cofrestru ag AGIC. Gwelsom fod gan y deintyddion dystysgrifau cofrestru AGIC a oedd yn cadarnhau eu cofrestriad. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn amlwg yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd cofnodion ar gael hefyd a oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch y cleifion rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Siaradom â nifer o staff sy'n gweithio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Esboniodd y staff eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddi staff a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ynghylch amrywiaeth o destunau. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

DRAFT

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roeddent yn trafod pynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Gwnaethon nhw gadarnhau eu bod yn gallu codi materion sy'n ymwneud â gwaith i'w trafod yn y cyfarfodydd hyn. Gwelsom fod cofnodion wedi cael eu cadw o gyfarfodydd y practis. Cynhaliwyd arfarniadau staff.

Mae adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn ddyddiol. Serch hynny, mae angen cofnodi hyn. Mae tîm y staff yn cwrdd yn fisol dros ginio i drafod canlyniadau'r archwiliadau, 'gwrando a dysgu' ynghylch technegau a datblygiadau newydd ym maes deintyddiaeth. Mae angen cofnodi'r cyfarfodydd hyn hefyd.

Roedd gan y practis ystod cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol â'r bwriad o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Polisi diogelu data
- Asesiadau COSHH
- Diogelu plant
- Diogelu oedolion
- Rheoli heintiau
- Iechyd a diogelwch
- Preifatrwydd ac urddas
- Cyfleoedd cyfartal
- Cleifion, preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd system ar waith i sicrhau bod holl yr aelodau staff yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau a rhybuddion. Mae'n rhaid i aelodau staff lofnodi i ddatgan eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn.

Roedd nifer o archwiliadau wedi'u cynnal yn ddiweddar; roedd y rhain yn cynnwys adolygiad o ddogfennau cleifion a sicrwydd ansawdd ffilm pelydr-X. Mae'r canlyniadau ac unrhyw gamau gofynnol wedi'u hadrodd yn ôl i'r tîm staff.

DRAFT

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad. Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol The Coach House yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

DRAFT

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau rydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] [3]a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

DRAFT

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol The Coach House

## Dyddiad yr Arolygiad: 20 Ionawr 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 9 | Dylid sicrhau bod codau lliw ar offerynnau glanhau, a bod y llawr yn addas i'r diben. Dylid sicrhau bod y silffoedd yn y cwpwrdd glanhau yn hawdd eu glanhau.<br><br>Ddim yn berthnasol | Rheoliad 14 (3) (b) | | | |

DRAFT

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ....................................................................................................

**Teitl:** ....................................................................................................

**Dyddiad:** ....................................................................................................

DRAFT